

OEDFAON A DIGWYDDIADAU'R FRO DROS YR HAF AC I DDOD YM MIS MEDI

DYDD SUL, AWST 7^{FED}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Mr Dafydd Watson yn arwain oedfa yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00. Bydd y Parch. Goronwy P. Owen yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00, yn Saron am 2.00, ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00.
DYDD MAWRTH, AWST 9^{FED}	<ul style="list-style-type: none"> Cofiwch am y cinio a sgwrs yn Ffestri Cefn Meiriadog am 12.15. Croeso cynnes i bawb.
DYDD SUL, AWST 14^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00. Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
DYDD SUL, AWST 21^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Parch. R. W. Jones yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd am 10.00.
DYDD MAWRTH, AWST 23^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Dilladu Merch ar Draws y Byd – cyfle arall i fynd i Ganolfan 'HWB' yn Ninbych o 9:30 – 12:30 i bwytho mwy o ffrogiau a siorts (patrwm syml gan ddefnyddio cas gobennydd), ac i weu tedi i'w rhoi ym mhoced y dilledyn. Dewch â chas gobennydd a thaclau gwnïo/gweu hefo chi. (Mae digon o beiriannau gwnïo yno.) Croeso i bawb o bob oed!
NOS FERCHER, AWST 24^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Adnabod Cymdeithasol – Taith gerdded hamddenol. Cyfarfod wrth y bont yn Llanfair Talhaiarn am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, ffoniwch Mair (870632/07900 627536) i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb.
DYDD SUL, AWST 28^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Mr Gwilym Jeffs yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, yn Henllan am 2.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00. Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Berain am 2.00 yng nghwmni Mrs Beryl Vaughan.
DYDD GWENER, MEDI 2^{IL}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Clwb Cinio yr ardal yng Nghefn Berain am 12.00.
DYDD SUL, MEDI 4^{YDD}	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Gwion yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yn Nantglyn am 2.00. Bydd Rhodri yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanfair am 2.00. Bydd y Parch. Euros W. Jones yn arwain oedfa ym Mheniel am 2.00.
DYDD SUL, MEDI 11^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Oedfa Arbennig i'r Fro i dderbyn rhai o ieuencid yr ofalaeth yn gyflawn aelodau o'u heglwysi lleol yn Llansannan am 10.00. Oedfa Gollwng Aneurin o'i Ddyletswyddau fel Gweinidog ym Mro Aled yn Llansannan am 6.00.
NOS FERCHER, MEDI 14^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Is-Bwyllgor Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd yn cyfarfod yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl. Y siaradwraig fydd Mrs Cheryl Williams.
DYDD SADWRN, MEDI 17^{EG}	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod Ordeinio a Sefydlu Dr Rhodri Glyn yn Weinidog ar Eglwysi Bro Aled yn Llansannan am 2.00.
NOS FERCHER, MEDI 28^{AIN}	<ul style="list-style-type: none"> Cyfarfod Chwiorydd Bro Aled yng Nghapel Soar, Llanfair Talhaiarn am 7.30 yng nghwmni'r Parch. Helen Wyn Jones.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 24^{ain} Gorffennaf 2016

Darlleniad y Dydd

Eseia 45: 1-7

(BCND tud.661 / BCN tud.603)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso i oedfaon y Sul. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau'r haul wythnos yma, ac wedi gwisgo digon o eli haul! Dwi'n siŵr fod y ffermwyr i gyd wedi bachu ar y cyfle yma i gasglu'r gwair ar ôl cymaint o law y mis diwethaf. Wrth gwrs, mae yna amser i wneud pob dim, does dim pwynt torri a bêlio ynghanol storm ddychrynlyd, does dim amser chwaith i eistedd a thorheulo pan mae'r caeau'n barod i'w trin. Mae'r Beibl yn ein hatgoffa fod yna amser i bob dim, mae pennod 3 yn Llyfr y Pregethwr yn disgrifio bod yna amser cywir ar gyfer pob dim "amser i blannu ac amser i godi beth blannwyd", "amser i chwilio ac amser i dderbyn", "amser i rwygo ac amser i bwytho".

Rydan ni fel Bro ar hyn o bryd mewn amser o newid wrth i ni ffarwelio ag Aneurin fel Gweinidog sydd wedi ein harwain mor ffyddlon yn y Gair dros y pum mlynedd ddiwethaf. Rydan ni'n diolch iddo am ei sêl dros godi arweinwyr ac am yr holl greadigrwydd y mae wedi ei ddod at y gwaith. Hefyd, wrth gwrs, rydan ni'n edrych ymlaen at y tymor nesaf y mae Duw yn ei roi i ni wrth i Rhodri ddod i'n harwain ni fel Eglwys, yn enw Iesu. Rydan ni'n diolch i Dduw am ei ddarpariaeth o arweinwyr sydd mor gadarn yn ei Air.

Wrth i ni feddwl am y newid yma mewn arweinyddiaeth, dewch i ni hefyd feddwl – yn unigol fel capeli ac aelodau – am yr hyn y mae Duw yn ceisio ei wneud yn ein bywydau. Ym mha adeg neu dymor mae Duw yn ein harwain ar hyn o bryd? Pa waith ydan ni yn ei ganol, pa bethau mae Duw wedi ei roi ar ein calonnau? Posib bod rhai ohonom ni'n teimlo ein bod mewn adeg o aros neu ddisgwyl am arweiniad gan Dduw, ac os felly, mae angen i ni bwysu arno a deisyfu yn ein gweddiâu iddo ddangos i ni ei ewyllys.

Mae Pregethwr 3 yn mynd ymlaen i esbonio fod Duw ar waith o hyd; bod cynllun Duw yn gadarn a byth yn methu na newid: "Mae Duw'n gwneud i bopeth ddigwydd yn berffaith ar yr amser iawn." (3:11) Tydan ni ddim yn gallu gwybod pob dim mae Duw yn ei fwriadu a'i wneud – ond am faint i gael bod yn rhan o'i gynllun!

Felly, dros yr haf, dewch i ni roi amser i weddio ac i feddwl am yr hyn y mae Duw yn ein galw i'w wneud. 'Amser' i beth fydd Medi 2016? Beth fydd yn dod â chlod i Dduw yn ein Bro yr adeg yma?

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled 

Sarah

SYLWER

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar **Fedi'r 4^{ydd}** (cyhoeddiadau i'w hanfon **erbyn Awst 31^{ain}**, os gwelwch yn dda. **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair (07900 627536).**

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 24^{ain}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig a bydd Gwion yn pregethu.
- **Taith Gerdded Hamddenol.** Cyfarfod ger Capel Peniel am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb!

Mercher – 27^{ain}

- **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid sy'n mynd i'r Coleg ym mis Medi ac sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan am 7.30.

Iau – 28^{ain}

- **Astudiaeth Feblaidd i'r Fro** yn Llanefydd am 7.30.

Sul nesaf – 31^{ain}

- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Sarah a bydd Aneurin yn pregethu. Fe weinyddir y cymun yn ystod yr oedfa.

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 24^{ain}

Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a bydd Ysgol Sul am 11.00. Bydd oedfa wedi ei threfnu yng Nghefn Meiriadog am 10.30 yng nghwmni Julie Regan ac aelodau Eglwys Sinan, a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Sul nesaf – 31^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30.

Llansannan

Sul yma – 24^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cymryd llais aelodau Eglwys Unedig Llansannan ynglŷn ag uno'r gynulleidfa gyda chynulleidfa Eglwys Tanyfron. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Sul nesaf – 31^{ain}

Bydd Gwion yn arwain oedfa am 10.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 24^{ain}

Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00. Iau – 28^{ain} Bydd Clwb Cinio yr ardal yng Nghefn Berain am 12.00. (*Sylwch ar y newid dyddiad.*)

Sul nesaf – 31^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Llanefydd am 10.00. Yn ystod yr oedfa hefyd, bydd Rhys ac Anna Williams yn cyflwyno Cian i gael ei fedyddio.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 24^{ain}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yn ystod yr oedfa, bydd dau aelod o'r Henaduriaeth yn cymryd llais aelodau Eglwys Tanyfron ynglŷn ag uno'r gynulleidfa gyda chynulleidfa Eglwys Unedig Llansannan.

Sul nesaf – 31^{ain}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Saron a Pheniel

Sul yma – 24^{ain}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 31^{ain}

Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 24^{ain}

Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 31^{ain}

Cynhelir Oedfa Thema yn Henllan am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Groes am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio am Gwenfyl Williams (Tanyfron) sy'n cael gofal yn Ysbyty Rhuthun, a Morfudd Williams (Henllan) sydd bellach wedi symud i'r Inffirmari, yn ogystal â phawb arall o'r Ofalaeth sydd heb fod yn dda eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan ofyn iddo gysgodi drostynt a thros eu hanwyliaid yr un modd. Hyderwn y byddant oll yn profi daioni'r Arglwydd yn eu cynnal yn eu hangen.
- Dymuniadau gorau i Glenys Roberts (Llansannan) fydd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar Awst 7fed.
- Mae Sarah eisoes wedi diolch i Aneurin ond bydd hithau hefyd yn cwblhau ei thymor fel Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol ym Mro Aled ar Awst 31ain. Mae Gwion a Sarah wedi rhannu'r swydd dros y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r ddau wedi cyfrannu'n helaeth i waith y tîm. Diolchwn i Dduw amdanynt a dymunwn yn dda i Sarah fydd yn dilyn Cwrs MA Gwaith Cymdeithasol ym Mangor dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd Gwion felly'n cyflawni dyletswyddau'r Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol yn llawn amser o fis Medi ymlaen. Pob dymuniad da iddynt hefyd yn eu cartref newydd yng Nghefn Meiriadog.
- Edrychwn ymlaen i gael croesawu Rhodri, Gwenno a Llio yn ôl i fyw i Heulfryn a gweddiwn y bydd bendith Duw ar y teulu bach ac ar eu gwaith yn ein plith. Bydd Rhodri yn cychwyn ei ddyletswyddau fel gweinidog ar Fedi'r 1af.